# Gair Bach Bethlehem 35



www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Rhif 35 - canol Mai 2022

## Teilwng yw'r Oen – y cast llawn




Ie – dyma nhw, y cantorion a'r band, ar ddiwedd y cyflwyniad cofiadwy dan arweiniad Eilir Owen Griffiths, bnawn Sul, Ebrill 24ain. Wedi dweud fod pawb yn y llun uchod, 'dyw hynny ddim yn gwbl gywir, chwaith! Er enghraifft, 'does dim golwg o Delwyn Sion, oedd yn arwain yr oedfa ac yn tynnu'r llun hwn, nac ychwaith y darllenwyr, Wyndham Richards, Sian Osbourne, Paul a Rachel Garside Jones, oedd yn gwneud hynny o'u seddau yn y gynulleidfa.
Mae'r diolch am wireddu'r cyfan i Eilir. Fe oedd yr un gynigiodd y syniad, fe fu'n cymell y côr o aelodau Bethlehem i ddod ynghyd, bu'n arwain yr ymarferion a threfnu'r cyfan. Rhaid nodi, wrth reswm, berfformiadau'r ddau unawdydd gwadd, Rhodri Prys Jones a Fflur Davies, a chyfraniad cwbl amhrisiadwy y cyfeilydd, Branwen Evans, ynghyd â gitâr fâs Pablo Roberts Morales a drymiau Joel Rees. A diolch hefyd am gefnogaeth 4 o gôr CF1.
Mae rhagor o luniau yn y rhifyn hwn ar gyfer eich llyfr lloffion – gan gynnwys y ddalen olaf un. Ond rhaid nodi mai drwy weld a chlywed y cyfan y cewch chi'r profiad llawn. Mae hwnnw'n dal ar gael ar YouTube, diolch i Wyn ac Aled, ar y ddolen gyswllt hon:

https://youtu.be/bFs6QA7JLT0

Casglwyd **£1000** i'w anfon drwy DEC a Chymorth Cristnogol i gynorthwyo yn Wcráin.



Fyddai'r darlun o'r achlysur ddim yn gyflawn heb y gynulleidfa! Diolch i bawb fynychodd yr oedfa – gan gynnwys y teulu bach o Wcrain (ar ochr chwith y llun) sy'n cael lloches gydag un o blant Bethlehem, Sara Ellis Owen. Diolch hefyd am drefniant Rhys Taylor o waith Tom Parker seiliedig ar waith Handel. A chofiwn mai'r Parchedig John Gwilym Jones addasodd y geiriau Cymraeg ac mai ein diweddar gyd-aelod Dilwyn Jones, Creigiau, gomisiynodd y telediad cyntaf o'r gwaith yn Gymraeg.





***(Chwith uchod):*** Gair bach cyn y perfformiad! Y ddau unawdydd, Rhodri Prys Jones a Fflur Davies, gyda'r arweinydd, Eilir Owen Griffiths.
***(Dde):*** Y Band, sef Joel Rees, Branwen Davies a Pablo Roberts Morales.





***(Chwith):*** Y côr, cyn y perfformiad.
***(Dde):*** Eilir yn ei elfen!

Rhodri-Gwynn Jones

## Cefndir 'Teilwng yw'r Oen'

**Cywasgiad o erthygl yn rhifyn mis Mai 2022 "Tafod Elai"**

"*Ac mi a edrychais, ac a glywais lais angylion lawer ynghylch yr orseddfainc, a'r anifeiliaid, a'r henuriaid: a'u rhifedi hwynt oedd fyrddiynau o fyrddiynau, a miloedd o filoedd; Yn dywedyd â llef uchel, Teilwng yw'r Oen, yr hwn a laddwyd, i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith."* [Beibl 1620 - Datguddiad 5:11-12]

Cyfaddasiad roc o waith Georg Friedrich Handel ydi "Teilwng yw'r Oen", a threfniant Rhys Taylor o waith Tom Parker a ddefnyddiwyd. Tom Parker a drefnodd y fersiwn Saesneg wreiddiol o "*The Young Messiah*" yn 1982, gyda Labi Siffre (a fu'n byw am gyfnod yn Ne Cymru), Madeline Bell (gynt o Blue Mink) a'r diweddar Vicki Brown (gwraig Joe Brown) yn unawdwyr. Cafwyd y fersiwn Gymraeg cyntaf tua 1984 gyda Sue Jones Davies, Sonia Jones a Geraint Griffiths yn canu'r darnau lleisiol. Ond fe gyfansoddwyd y gwreiddiol gan Handel yn 1741, gyda'r geiriau, yn adlewyrchu rhannau o'r Hen Destament a'r Testament Newydd, gan Charles Jennens.

Cyfansoddodd Handel y gerddoriaeth mewn 24 diwrnod, ac ar ddiwedd y sgript gerddorol, sydd yng ngofal y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain, cynhwyswyd y llythrennau "SDG" – "*Soli Deo Gloria*" – sef "*I Dduw yn unig y bo'r gogoniant*". Yn Nulyn, ar y 13eg o Ebrill 1742, y'i perfformiwyd am y tro cyntaf, a hynny er budd tair elusen. 'Roedd 700 o bobl yn bresennol a chodwyd tua £400 tuag at fudiadau iechyd, ymgeledd a dyled carcharorion. Gorfodwyd y dynion a fynychodd i adael eu cleddyfau gartref, ac i'r merched hwythau ddod heb y cylchoedd rheini oedd yn dal eu ffrogiau o'u cwmpas, er sicrhau lle i bawb a fynnai fod yn bresennol!



Er budd elusen y cyflwynwyd y perfformiad ym Methlehem, Gwaelod-y-garth hefyd, ac ar Sul y Pasg yng nghalendr eglwysi Uniongred Dwyrain Ewrop, gan gynnwys Wcrain a Rwsia, y gwnaethpwyd hynny. Nid oedd na chleddyf na chylch yn perthyn i neb oedd yn bresennol, ac er i'r nifer a fynychodd fod yn sylweddol lai na'r dorf yn y cyngerdd gwreiddiol, fe lwyddwyd i gasglu £1000 tuag at Apêl DEC Wcráin. A gwnaethpwyd hynny ym mhresenoldeb teulu o ffoaduriaid (mam a'i merch) o'r Wcrain sydd wedi cael lloches gan Sara Ellis Owen ym Mryste. *(llun ar y dde)*

Er sicrhau eu dychweliad saff i'w gwlad ac at eu teulu, ac mewn cydymdeimlad llwyr a'r miliynau o ffoaduriaid eraill ymhob rhan o'n byd cythryblus, deisyfwn ninnau i arweinwyr y cenhedloedd, yng nghyfnod y Pasg o ryfela yma, glywed cri'r bobl – "hedd yn awr".

*Teilwng yw'r Oen, ga'dd farwol glwy',*
*O bob derchafiad, meddant hwy;*
*Teilwng, atebwn ninnau, yw*
*Yr Oen fu farw i ni gael byw.* (un pennill o gyfieithiad Dafydd Jones o Gaio o emyn o waith Isaac Watts, a gyhoeddwyd yn *Hymnau a Chaniadau Ysprydol*, 1775)

## Y Dedlein nesaf


**Beth am roi hoe bach i'n cyfranwyr cyson – a rhoi cyfle i'r rhai sydd wedi cael ysfa i anfon, ond heb wneud hynny hyd yma? Os nad oes yna nofel yn eich enaid hyd yma, beth am erthygl o unrhyw hyd – ar unrhyw bwnc? Hwn fyddai cychwyn eich taith i gofnodi rhywbeth fyddai o ddiddordeb i ni gyd.**

**Dyddiad cau y rhifyn nesaf: Gorffennaf 13, 2022**

Cyfraniadau at: Ifan Roberts – tycnau@aol.com

Gair gan Delwyn Sion

# "Pan ddêl Mai"



Ie, "Pan ddêl Mai a'i lifrai las", hoff fis Dafydd ap Gwilym, a chychwyn yr haf i'r hen Gymry, ond yn tŷ ni mae'n fis pwysig iawn am ei bod hi'n ben-blwydd ar un ohonom ni, sef Ann!! Ond nid Ann yw'r unig un sy'n dathlu'n y mis yma wrth gwrs, mae'n fis geni Waldo. Na! Nid ein Waldo ni, yr heddychwr annwyl ac awdur "Dail Pren", ond Ralph Waldo Emerson, un arall dwi'n troi ato'n aml, ac un sy'n llawn dywediadau doeth a difyr, fel y rhain, "Ysgrifennwch ar eich calon taw pob diwrnod yw diwrnod gorau'r flwyddyn" a "Chrëwyd dim byd o werth heb frwdfrydedd" a "Ni ellir ennill heddwch trwy drais, dim ond trwy ddealltwriaeth." - geiriau fyddai'n derbyn "amen" gan ein Waldo ni heb os, a gan fudiad sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 62 oed y mis yma sef Amnest Rhyngwladol. Mudiad eithriadol o werthfawr a sefydlwyd i amddiffyn hawliau dynol ar draws y byd, a sydd ar hyn o bryd yn casglu tystiolaeth o droseddau rhyfel yn yr Wcráin. Yr Wcráin, ger y Crimea, lle roedd y nyrs enwog a'i lamp yn gofalu am y milwyr. Do, fe aned Nyrs Nightingale ym mis Mai, ac yn lle ganed hi? Wel, yn yr Eidal wrth reswm - yn Florence!

A bydde Florence yn gyfarwydd iawn ag enw'r nesa' ar rhestr anfarwolion mis Mai, sef Edward Jenner, enw a ddylai fod yn gyfarwydd i ni gyd o ystyried y ddwy flynedd ddiwethaf. Pam? Gan taw Jenner greodd y "variolae vaccine" - sef brech fach y fuwch - y brechiad wnaeth wella'r frech wen, ac wrth wneud hynny fe greodd a phoblogeiddiodd y gair - "vaccine"- a hynny nôl ym 1798.

Os nad oedd enw Edward Jenner yn gyfarwydd i chi, wel dwi'n siŵr fydd hynny ddim yn wir am enw'r gwr nesa, sef Israel Beilin. Na? Wel, fe aned Israel mewn tlodi affwysol ar Fai yr 11eg, 1888, yn un o 8 o blant. Y cof cyntaf sydd ganddo yw gorwedd ar y ddaear mewn blanced, yn edrych ar gartref ei deulu yn llosgi i'r llawr. Wedi'r trychineb yna fe ddihangodd y teulu, gyda miloedd a ffoaduriaid eraill, o Rwsia i'r America, lle newidiodd ei enw i …Irving Berlin.

Fe gyfansoddodd Irving dros fil o ganeuon, yn eu plith "Alexander's Ragtime Band", "Puttin' on the Ritz" "There's no business like Showbusiness!" "I'm dreaming of a White Christmas" a hoff gân Boris Johnson a Keir Starmer -"Anything you can do I can do Better!" Mmmmm…

Beth bynnag, pan o'dd Irving Berlin yn gant oed fe dalwyd teyrnged iddo gan Walter Kronke, a ddywedodd bod Berlin "wedi cael gafael ar yr hyn sydd orau ynom ni." Ac onid dyna wnaeth Syr Ifan ab Owen Edwards wrth sefydlu Urdd Gobaith Cymru; neu Urdd Gobaith Cymru Fach fel roedd hi'n wreiddiol, nôl ym 1922. "These days" meddai mewn erthygl papur newydd "children read and play in English. They forget that they are Welsh." Roedd ei fryd ar newid hynny, a hynny gyda brwdfrydedd, a chanrif yn ddiweddarach ry'm ni'n dystion i'w weledigaeth a'i lwyddiant. Ym mis Mai eleni mae Neges Ewyllys Da y Mudiad yn dathlu'i phen-blwydd yn gant oed, canrif o ddanfon neges o heddwch i bobl ifanc ar draws y byd. Ac eleni nid dim ond danfon geiriau, ond gweithredu'r geiriau hynny wrth roi lloches i deuluoedd o ffoaduriaid. Yn dilyn y




penblwydd ym mis Mai, fe ddaw hyfryd fis Mehefin a'r Eisteddfod, yna Gwersylloedd Haf, yna gweithgarwch Adran ac Aelwyd, a'r cyfan fel bod y plant a'r ieuenctid ddim yn anghofio'u bod nhw'n Gymry.

"I Gymru, i Gyd Ddyn, ac i Grist". Arwyddair sy'n crynhoi yr hyn sydd orau amdanom ni.

Penblwydd Hapus Mai-olion, a phen-blwydd arbennig iawn i'r Urdd - a diolch.




Delwyn.

*Dyma'r oedfaon dros yr haf*

## Suliau Bethlehem – hyd ddiwedd Medi

*(**am 10:30 a.m.** oni nodir yn wahanol)*

**Mai**
15 Parchg Glyn Tudwal Jones
22 Arwel Ellis Owen
29 Parchg Dafydd Andrew Jones

**Mehefin**
5 Delwyn Siôn (Y Sulgwyn)
12 Parchg Gethin Rhys
19 Huw Lloyd
26 Parchg Ifan Roberts

**Gorffennaf**
3 Delwyn Siôn
10 Sul y Cyfundeb (?)
17 Sian Meinir
24 Marc J. Williams
31 Oedfa yn Y Tabernacl, Efailisaf


**Awst**
7 Oedfa ym Methlehem
14 Oedfa yn Y Tabernacl, Efailisaf
21 Oedfa ym Methlehem
28 Oedfa yn Y Tabernacl, Efailisaf

**Medi**
4 Delwyn Siôn
11 I'w gadarnhau
18 Parchg Ddr R. Alun Evans
25 Sian Meinir

Mae'n diolch yn fawr i Delyth Evans am drefnu'r Suliau dros y blynyddoedd diwethaf ond sydd am ildio'r swyddogaeth. Rydyn ni'n gobeithio y daw olynydd iddi cyn bo hir.

# Ail gofio dyddiau Capel Celyn

Un o'n cyd-aelodau ym Methlehem, Gwyn Roberts, Rhydlafar, oedd siaradwr gwadd Cylch Cadwgan ar Fai'r 6ed. Ei fam, y ddiweddar Mrs Martha Roberts, oedd prifathrawes olaf ysgol Capel Celyn, cyn i'r holl bentref gael chwalu i adeiladu argae Llyn Celyn.


Gwyn Roberts

Er mai disgybl cynradd yn Y Bala oedd Gwyn yr adeg honno, roedd yn ymwelydd cyson â'r ysgol yng Nghapel Celyn gan nad oedd rheolau caeth yr oes fodern yn rhwystro'i fam rhag ei gynnwys yn ei dosbarth ar dyddiau achlysurol lle na allai gael ei warchod yn unlle arall.

Drwy gyfrwng sleidiau teuluol a rhai mwy cyhoeddus cawsom bortread unigryw Gwyn o'r ysgol un dosbarth ac un athrawes mewn cwm sydd bellach dan ddŵr Tryweryn. Mae Gwyn wedi cyflwyno rhai o'r creiriau olaf o'r ysgol, gan gynnwys y gloch llaw ac allwedd drws y ffrynt, i Amgueddfa Sain Ffagan. Cawsom hyd yn oed glywed seiniau cloch yr ysgol, seiniau oedd ychydig yn wahanol i'r cyffredin gan fod crac ynddi!

Arweiniodd y ddarlith ni o ddyddiau'r arolygon tir fu'n digwydd cyn i neb sôn am godi argae, drwy'r gorymdeithio yn Lerpwl, y dyddiau trist wrth i aelwydydd ac adeiladau gael eu chwalu hyd at yr agoriad swyddogol cythryblus ym 1965. Drwy'r holl gyflwyniad, roedd clywed profiadau ac atgofion teuluol Gwyn yn cyfoethogi'r cyfan. A da deall ei fod wedi bod yn rhannu'r profiadau hynny gydag ysgolion ar hyd a lled Cymru.


Gwyn gydag Ann Jones

Bonws ychwanegol oedd sylweddoli fod un o gyn ddisgyblion ysgol Capel Celyn yn bresennol yn y gynulleidfa! Yn ein plith ar y noson roedd Ann Jones, o'r Barri, (ond un rydyn ni'n ei gysylltu efallai gyda Dinas Mawddwy, fel Colin, ei brawd yn Creigiau). Diolch i Wyn Jones am lywyddu'r noson ac am yr holl drefniadau.

Prin fod angen eich atgoffa o drefn cyfarfodydd Cylch Cadwgan. Mae'r cyfan yn drefniant rhwng 5 cymdeithas neu sefydliad – Bethlehem, Gwaelod-y-garth; Y Tabernacl, Efail Isaf; Merched y Wawr, Y Garth; Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a Chlwb Y Dwrlyn. Mae pob un o'r pedwar yn trefnu un siaradwr y flwyddyn mewn gwahanol leoliadau – ond y tro hwn oedd y cyfarfod cyntaf i'r cyfarfod fod yn un 'go iawn'.. Bu'r cyfan o'r rhai diweddar yn rhai rhithiol, ar "Zoom", oherwydd cyfyngiadau'r clo.

# Rhagor o NEWYDDION BETHLEHEM



## Croeso Menna!

Mae hi wedi bod yn mynychu'n gyson ers cryn amser bellach a bellach mae Menna Jones, Rhiwbeina, wedi ymaelodi ym Methlehem. Fe'i derbyniwyd yn aelod gan Delwyn Sion ar Galan Mai. Gyda hi yn y llun mae ei phriod, Iwan, ei merch, Mair a'r wyres fach, Greta.

## *CYDYMDEIMLO*

**Fel eglwys, rydyn ni'n cydymdeimlo â Dylan John a'r teulu, Llysfaen. Bu farw mam Dylan yng Nghartref Gofal Cwrt Enfys, Ystradgynlais, yn gynnar ym mis Ebrill.**

## *Bron ar ben!*

*Mae'r galeri wedi ei baentio! Felly dyna derfyn ar y gwaith o roi gwedd newydd ar yr holl seddau yno i fatsio'r gwaith wnaed llynedd ar y llawr isaf.*

*(Unwaith bydd y stribedi porffor wedi eu codi, a'r tuniau paent wedi gadael, bydd y cyfan yn barod amdanoch!)*





# Oedfa Cymorth Cristnogol

Disgyblion yr Ysgol Sul oedd yn cefnogi cyflwyniad Heulwen Jones yn yr oedfa Cymorth Cristnogol eleni. Dyma bortread o'r bore drwy lygaid y camera – gan gofio am y cyfeilyddion a'r arweinydd côr/promptar!. Plannu hadau 'corn melys' maen nhw tua gwaelod y dudalen, gyda llaw. (Un llun arall ar dudalen olaf y rhifyn hwn.)



# O Fethel i Fethlehem — Gwilym Williams

Ychydig wythnosau yn ôl cefais y pleser o wrando ar y Parchedig Ddr R. Alun Evans mewn cyfarfod o Ferched Bethlehem. Bu'n siarad am '*The Most Hated Man in Wales'* ac hefyd am yr Hen Gapel yn Llanbrynmair. Bonws oedd cael dathlu penblwydd Eirlys a rhannu o'r gacen. Wythnos neu ddwy yn ddiweddarach roedd y gwasanaeth Sul dan arweiniad Rhys ab Owen, ac fe soniodd am y llwybrau sy'n ein harwain i gyfeiriad arbennig. Beth yw'r cysylltiad rhwng y ddau achlysur tybed?



Yn syml, cefais fy atgoffa o'm plentyndod yn Swyddffynnon yng ngogledd Ceredigion. Daeth darlun yn ôl o Fethel – Capel y Bedyddwyr - lle bu'r teulu'n hoelion wyth dros y blynyddoedd, yn cynnal yr achos tra gallent. Y cof cyntaf sydd gennyf o fod tu fewn i'r capel oedd mynd yno llaw yn llaw gyda'r Parchedig T R Morgan i Gwrdd Gweddi. Chwarae cwato neu ddal llwynog oeddem fel plant y pentref, a dyna'r guddfan orau ges erioed! Bu T R Morgan yn Weinidog ar Fethel a Charmel, Pontrhydfendigaid, am 57 o flynyddoedd.

Cerddai rhai o'm ewythrod filltiroedd ar lwybrau cefn gwlad i fynychu'r oedfaon. Gwelaf hwynt hyd heddiw yn ymlwybro yn eu dillad parch o Gnwc yr Haidd, drwy gaeau Swydd a lôn Pen Gwndwn. Hefyd o Gefn Llwyn, Tyn Fron a Chefn Meurig, mewn glaw neu hindda, pan oedd cytgord rhwng aelod ac allor. Dilyn y llwybrau sydd bellach dan frodwaith o fieri a thyfiant.

Mae drysau Bethel wedi hen gau. Eto yn y cof gwelaf y seddau lle eistedda'r selogion bob Sul; yr un sedd bob tro. Cofiaf am ddau ewyrth, Eben a Rhys, bob pen i'r sedd fawr yn porthi'r Gweinidog neu gennad arall gydag 'Amen', 'ie Charamel' a 'diolch iddo' bob hyn a hyn. Byddai fy nhad yn codi'r canu yn ei lais cyfoethog. Dyma adeg pan oedd Cyrddau Mawr yn eu hanterth. Yn flynyddol ceid 'cewri'r enwad' fel Jubilee Young, Rhydwen Williams, Clement Davies ac eraill yn pregethu. Byddai un bregeth ar y noson agoriadol, un y prynhawn canlynol a dwy y noson honno. Dyna hunllef i grwt ifanc!! Byddai'r capel o dan ei sang a chynulleidfa sylweddol tu allan yn gorfod gwrando trwy'r drysau agored. Roedd Bedyddfan tu allan ond roedd rhaid ei lanw trwy fôn braich. Haws oedd cronni y Camddwr Fach, ger efail fy nhad, i greu argae.

Bu'r pentref ar un adeg yn fwrlwm o fywyd cymdeithasol ac uchel ei ymffrost yn ei chrefftwyr a'i doniau arbennig; y gofaint, y seiri coed a maen, y crydd, y melinydd ac ati. Ciliodd y colofnau hyn ers blynyddoedd a phrinhaodd y rhai a'i cofiai. Bu'r pentref yn bwysig yn hanes Abaty Ystrad Fflur gan fod swyddfa yma gyda'r mynachod. Mae'n debyg taw yma yr ysgrifennwyd Brut y Tywysogion yn Gymraeg ac *'Annales Cambriae'* yn Lladin.

Byddai'r ffynnon yn diwallu syched y mynachod pan oedden nhw'n ymlwybro rhwng Tŷ Ddewi, Ystrad Fflur, ac Abaty Cwm Hir. Tybed a oes rhywun ar ôl yn y pentref yn gwybod lle mae'r ffynnon yng Ngwm Tŷ Mawr? Mae 'na ffynnon arall fu'n diwallu anghenion y pentref am flynyddoedd hyd yn oed yn yr haf mwyaf sych.

Erbyn hyn, â Bethel wedi cau, mae Capel y Methodistiaid yn gwanychu byw, yr ysgol, llythyrdy a siop y crydd wedi diflannu. Mae'r efail, y felin flawd a'r felin wlân yn adfeilion ac yn ddim mwy na lloches i'r tylluanod. Onid twyllo fy hun yr wyf fy mod yn dal i glywed tinc y morthwyl ar yr einion a miwsig y dŵr ar y rhod? Mae'r sticlau bellach yn ddi-werth, y llwybrau heb ddefnydd a'r selogion wedi prinhau.

> 'Ar arferion Cymru gynt
> Newid ddaeth o rod i rod'



Byddai Ieuan Fardd neu Ieuan Brydydd Hir, a aned yn Cynhawdre, ac yn un o ysgolheigion pwysicaf ei oes a hanes Cymru drwy gyfieithu llawysgrifau i'r iaith Gymraeg - disgrifiwyd ef fel '*the greatest Welsh Scholar of his age* - rwy'n siŵr y byddai'n gresynu fod y llwybrau hyd lannau y Camddwr Fach i'r Pentref ac i Ysgol Edward Richard yn Ystrad Meurig wedi mynd yn angof. O'r ysgol honno aeth ymlaen i Rhydychen. Bellach, dim ond

> 'Drain ac ysgall, mall a'i medd
> Mieri lle bu mawredd'.



# Ymweliad cyntaf Tristan

Yn ein rhifyn diwethaf roedden ni'n croesawu babi newydd i blith teulu Bethlehem. Y tro hwn, dyma gyfle i'w groesawu i'n plith, go iawn. Mae Tristan Owen Mitchell yn ddeufis oed bellach ac fe fynychodd ei oedfa gyntaf ar ddechrau Mai a bihafio'n ardderchog, chwarae teg!



Yr oedd ei fam Ellen, ynghyd â'i chwaer fawr Sofia ac yntau, ar ymweliad o Truro – Maen nhw i gyd yn ddisgynyddion i Delyth a Peredur Evans, Yr Eglwys Newydd, ac mae 'na hefyd fodryb deuluol yn cuddio tu ôl i'r piler yn y llun ar y dde!

**Eich cyfle i fod yn seren ar y radio!**

MAE

## CANIADAETH Y CYSEGR

EICH ANGEN

# CHI

***Mae yna wahoddiad wedi dod inni recordio tua deg emyn ar gyfer 'Caniadaeth y Cysegr' ar BBC Radio Cymru.***

*Mae Eilir yn barod i godi'r baton, ond RHAID wrth gantorion i gyflawni'r dasg.*
*Faint ohonoch sydd ar gael i ddod i ymarferion byr ar ôl oedfaon Mehefin, ac yna i'r recordio ar brynhawn Sul, Gorffennaf 10?*

*Ydych chi wedi anfon e-bost at delyth.evans2@gmail.com i ddweud eich bod am gymryd rhan?*
*Os nad ydych, gwnewch hynny, cyn diwedd yr wythnos hon, plîs!*

***Delyth ac Eilir***

## Anfon ein Cofion

- Rydym fel arfer yn y Gair Bach yn cofio'n annwyl iawn am yr aelodau rheini nad ydynt, oherwydd cyflwr eu hiechyd, neu mewn gwth o oedran, yn gallu ymuno a ni mwyach yn y capel. Anfonwn ein cofion, felly, at **Eurfryn Thomas** a **Beti Williams**.
- Hefyd fe wyddom bod nifer o'n haelodau wedi cael eu blino gan y COVID yn ystod y misoedd diwethaf, y **Parchedig Ddr. R Alun Evans** yn eu plith. Bu galw arno ef i ofyn am gael ei ryddhau o'i gyhoeddiadau mewn pulpudau ymhell ac agos oherwydd yr haint. I bawb ohonoch felly, dymunwn adferiad llwyr a buan o'r cyflwr.
- A braf oedd gweld **Mrs Ann Williams**, ein haelod hynaf, yn mynychu oedfa yn ein plith yn ystod mis Mai.

## Gweddi dros y rhai sydd yn y weinidogaeth Gristnogol yn yr Wcráin



Dduw cariad, rhown ddiolch i ti am waith Cynnal, sy’n cefnogi pobl yn y weinidogaeth Gristnogol ar hyd a lled Cymru. Ac yn awr, down â’r rhai sydd yn y weinidogaeth Gristnogol yn yr Wcráin ger dy fron.

Yng nghanol yr holl anrhefn, rho iddynt ymwybyddiaeth ddofn o dy bresenoldeb di. Arglwydd, trugarha.
**Grist, trugarha.**

Gwna nhw’n ymwybodol y gallent ymddiried ynot ti, wrth iddynt gyhoeddi buddugoliaeth dy gariad di yn Iesu dros bopeth sy’n ddrwg. Arglwydd, trugarha.
**Grist, trugarha.**

Iachâ eu trawma, wrth iddynt yn eu tro gefnogi’r rhai sydd hefyd yn cael eu trawmateiddio gan ofn, erchylltra a dinistr. Arglwydd, trugarha.
**Grist, trugarha.**

Cysura hwy yn eu profedigaeth, wrth iddynt weinidogaethu i’r rhai sydd hefyd wedi colli ffrindiau, teulu, cartref a ffordd o fyw. Arglwydd, trugarha.
**Grist, trugarha.**

Pan fyddant yn teimlo’n wan a blinedig, ac yn dda i ddim, boed iddynt wybod eu bod yn parhau i gyflawni dy fwriadau di. Arglwydd, trugarha.
**Grist, trugarha.**

Anfon bobl atynt, pobl fydd yn eu deall, yn eu caru ac yn eu cefnogi mewn cyfnodau o dywyllwch ac unigrwydd. Arglwydd, trugarha.
**Grist, trugarha.**

Rho ddoethineb iddynt, pan fydd angen iddynt benderfynu a ydynt am ffoi er mwyn arbed eu hunain a’u ceraint, neu aros a rhannu dioddefaint eu pobl. Arglwydd, trugarha.
**Grist, trugarha.**

Helpa ni i barhau yn ein tosturi a’n gweddïau drostynt hwy a’r rhai y maent yn eu gwasanaethu. Arglwydd, trugarha.
**Grist, trugarha.**

Fe weddïwn hyn yn enw Iesu, ein Harglwydd croeshoeliedig, atgyfodedig. **Amen.**

Diolch i'r Parchedig Margaret Le Grice am y weddi wreiddiol yn Saesneg, ac i'r Parchedigion Ifan a Catrin Roberts am y cyfieithiad Cymraeg; a diolch i Wynford Ellis Owen, ar ran Cynnal, am ei hanfon atom.

# Cloddio yn yr Archif!

Rhodri-Gwynn-Jones

## Cymeriadau Hynod Bethlehem!

Dyma adroddiad a ymddangosodd yn rhifyn yr 20fed o Ionawr 1893 o'r "Tyst":-

**CYFARFODYDD BETHLEHEM, PENTYRCH:**

*"Nos Sadwrn, Ionawr y 7fed [1893] cawsom ddarlith gan Mr Joseph Millward ar "Gymeriadau hynod eglwys Bethlehem" yn y capel uchod. Yr oedd hon yn ail ddarlith ar yr un testun i ni gael ganddo. Y mae yr hen frawd trwy gyfrwng y darlithiau hyn wedi gwneud gwasanaeth gwerthfawr i'r eglwys, trwy ddangos i'r bobl ieuanic fod yna ddynion ardderchog wedi bod yn amlwg yn yr eglwys hon yn y gorffennol, a chodi awydd ynddynt hwythau i fyw yn deilwng o'r blaenoriaid hyn yn y dyfodol. Cafwyd amryw benillion da iawn yn yr un cyfeiriad a'r ddarlith gan fab y darlithiwr, sef Mr W.G.Millward, Ynyshir. Cadeiriwyd yn y cyfarfod gan y Parch J Taihirion Davies, yr hwn oedd yn adnabyddus iawn o'r cymeriadau y cyfeirid atynt.*

*Pregethodd y Parch T.J Rees y nos Sul canlynol i'r un cyfeiriad ar y geiriau "Gan fod gymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch" &c. Hyderwn y bydd adgyfodiad y cymeriadau hyn yn symbyliad i weithgarwch yn yr eglwys."*

[Un oedd yno]

Wn i ddim pwy oedd y cymeriadau hynod y bu i Joseph Millward gynnwys yn ei ddwy ddarlith – hyd y gwn 'does 'na ddim cofnod ohonynt ar glawr yn unman, ond tra'n chwilota yn yr archif fe ddeuthym o hyd i un enw a allai fod yn eu mysg. Gwr o'r enw Evan "Pan" Jones oedd hwnnw.

['Rwy'n cydnabod yn ddiolchgar fenthyg mymryn o'r hanes a gyhoeddwyd yn rhifyn Gorffennaf 2001 o'r Traethodydd, dan y teitl "Papurau Pan", gan Meredydd Evans (a hynny yn ei dro wedi ei seilio ar ddarlith a draddodwyd ganddo i Gymdeithas Ddiwylliannol Dyffryn Ogwen ar Fawrth y 3ydd 2000). ]

*"Fe'i ganed mewn bwthyn ym mhlwyf Llandysul yn 1834, yn fab i was ffarm o'r enw Evan, a'i wraig, Hannah. Collwyd y tad y flwyddyn ganlynol, gan adael ei fam i'w fagu ef a'i chwaer, oedd tua phum mlwydd oed "mewn dygn dlodi". Yn naw oed 'roedd ganddo fusnes bach yn gweu a gwerthu 'sanau a menyg; plethu stolion brwyn hefyd, yn ôl y galw. At hynny bu'n torri cerrig ar ochr ffyrdd yr ardal am yn agos i dair blynedd a'r un pryd yn crafu rhyw chydig fisoedd o addysg mewn ysgolion lleol; a chael profiad o'r "Welsh Not".*

*Hefo peth o arian y gwaith torri cerrig prentisiwyd o i deiliwr lleol a dysgu ei grefft y buodd o am beth amser wedyn mewn pentrefi a thre cyfagos cyn symud o'r diwedd i El Dorado y Gweithiau Glo; teithio mewn "trol galch" o Landysul i Lansamlet – lle gwelodd drên am y tro cynta'n ei fywyd – a chyrraedd Pentyrch, ym Morgannwg.*

*Mi aeth pethau'n hwylus iddo fo yno – gweithio hefo teiliwr hynaws a chael croeso cynnes yn eglwys yr Annibynwyr. Ymhen peth amser roedd o'n teimlo'n ddigon hyderus i gychwyn busnes ei hun ac ar fyr dro 'roedd o'n gwneud yn ddigon da i gyflogi dau ddyn. Ym Mhentyrch hefyd dechreuodd o ar ei yrfa fel "gwr cyhoeddus", yn siarad o blaid Dirwest. Nid heb gryn wrthwynebiad, gyda llaw, oddi wrth rai o'i gyd-aelodau yn eglwys Bethlehem.*

*Ond mi bydrodd arni gan ddod yn adnabyddus fel pleidiwr Dirwest a "Gwrthysmygu" mewn sawl ardal yn ne-ddwyrain Cymru.*

*Ar y trywydd hwnnw yr aeth o i rai o ardaloedd sir Fynwy a chyn bo hir cefnodd ar fyw ym Mhentyrch a sefydlu busnes newydd ym Mlaenau Gwent gan ymaelodi yn eglwys Berea yno. Yn y capel Annibynnol hwnnw y traddododd ei bregeth gyntaf a hefo'r arian a gasglodd trwy deilwra mentrodd yn Rhagfyr 1857 i Goleg Annibynnol y Bala. Yno daeth o dan ddylanwad uniongyrchol Michael D Jones, un o'i arwyr pennaf wedyn…"*

Â'r ddarlith ymlaen i sôn iddo ymweld a'r Almaen yn Awst 1860, a threulio pedwar mis wedi hynny ym Mharis. Ymlaen i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin yn 1862 (lle mabwysiadwyd yr enw "Pan" fel enw canol, a hynny er mwyn gwahaniaethu rhwng tri Evan Jones oedd yn y coleg yr un pryd!) ond ni dderbyniodd alwad wedi treulio pedair blynedd yno. Felly codi ei bac ac am Lundain, ac wedyn yn ôl i'r Almaen – graddio yn M.A. a Ph.D. ym Mhrifysgol Marburg, a dychwelyd i Gymru yn Awst 1869.

O'r diwedd yn Ionawr 1870 cafodd ei ordeinio yn weinidog ar eglwys Annibynnol Mostyn, sir y Fflint, ac yno y treuliodd weddill ei oes, hyd ei ymddeoliad o'r weinidogaeth yn 1908, a'i farw ar Fai yr 8fed 1922.

*"Cymeriad – a chymêr hefyd – amlochrog; pregethwr a gweinidog ymrwymedig, Golygydd (sefydlodd ei gylchgrawn misol ei hun yn 1891 dan y pennawd "Cwrs y Byd" ["Papur Pan" mewn gwirionedd], cofiannydd, darlithydd cyhoeddus, bardd, cyfieithydd, teithiwr, llwyrymwrthodwr, piwritan, dychanwr ac, uwchlaw popeth efallai, dadleuwr cyndyn mewn achosion crefyddol a gwleidyddol."*

Ac aros am ychydig hwy gyda "Cwrs y Byd", meddai Merêd yn ei ddarlith:-

> "*Eithr 'does dim amheuaeth yn fy meddwl i na ellir ei gyfrif yn un o Sosialwyr cynnar Cymru."*

Ac wrth rannu ei syniadaeth wleidyddol a amlygir yn y cylchgrawn, pwy fyddai'n dadlau â hynny:-

1. Cenedlaetholi'r Tir a dileu landlordiaeth

2. Cenedlaetholi'r glofeydd, y chwareli llechi, yr afonydd, y nwy, y dociau, y llythyrdy, y gweithfeydd haearn a dur, y rheilffyrdd, llongau
3. Dosbarthu cyfoeth yn deg
4. Sicrhau tâl i Aelodau Seneddol a chynghorwyr Sir
5. Ymreolaeth i Gymru, Iwerddon, Lloegr a'r Alban
6. Datgysylltiad a dadwaddoliad yr Eglwys yng Nghymru ynghyd a gwrthwynebu talu'r Degwm
7. Galw am ddeddfau seneddol i hybu Dirwest
8. Addysg Rad a Rhydd
9. Sicrhau pleidlais i ferched
10. Pledio Undebaeth Lafur
11. Dydd gwaith 8 awr i bob gweithiwr
12. Galw am sefydlu Gwerin Lywodraeth a beirniadu'r teulu brenhinol
13. Gwrthwynebu Imperialaeth Prydain ymhob rhan o'r byd
14. Egluro hanfodion Sosialaeth fel damcaniaeth wleidyddol.

*"Slogan wleidyddol ganolog 'Pan' oedd "Y Ddaear i'r Bobl".*
"*Petai'r Mudiad Llafur a'r Mudiad Cenedlaethol yng Nghymru wedi cadw yn nes at raglen wleidyddol Evan Pan Jones mae'n debyg y byddai'r Cymry wedi eu harbed rhag llawer gwrthdrawiad a chamddealltwriaeth chwerw a'u gwanychodd ar y daith tuag at ddinasyddiaeth deg*" medd Merêd!

**Pwy arall tybed a allai fod ar restr Joseph Millward o "gymeriadau hynod" Bethlehem, Gwaelod-y-garth, Unrhyw awgrym?**

## Agor y Festri

Dyma adroddiad a ymddangosodd yn rhifyn y 25ain o Fai 1894 o'r "Tyst":-

**CYFARFODYDD BETHLEHEM, PENTYRCH:**

"*Nos Sadwrn, Mai y 5ed [1894] cafwyd cyfarfod diddorol iawn i agor yr ysgoldy newydd sydd wedi cael ei adeiladu y tu ôl i'r capel.*
*Llywyddwyd ar yr achlysur gan y Parch T J Rees. Wedi i'r Llywydd ddechrau trwy weddi, a rhoi anerchiad agoriadol, cawsom adroddiadau a chan gan amryw o blant yr Ysgol Sul, ac areithiau hefyd gan rai o'r brodyr. Cawsom gyfarfod difyr, bywiog ac adeiladol. Y mae yr ysgoldy yn adeilad rhagorol. eistedda dros 200 yn gysurus ynddo. Y mae gan Bethlehem achos i fod yn falch ohono. Y peth nesaf sydd i'w wneud ydyw talu y £400 y mae yr adeilad wedi ei gostio. Dechreuir yn y cyfeiriad hwn yng nghyfarfod y Sulgwyn.*
*Prynhawn yr un dydd, bu y Gobeithlu yn cael eu te blynyddol, ac wedi hynny cafwyd gorymdaith yn rhifo tua 100, yn cael eu blaenori gan y Seindorf ddirwestol newydd sydd wedi cychwyn yn y gymdogaeth. Yr oedd pob un yn gwisgo medal, ac yn argraffedig arno - "Gobeithlu Bethlehem". Yr oedd yr olwg arnynt yn brydferth iawn. Gall eglwys Bethlehem fod yn falch iawn o'r dynion ieuainc sydd yn gweithio mor egnïol yng nghyfeiriad dirwest a'r Ysgol Sul yn y lle. Dyma'r modd y treuliwyd gennym ddydd agoriad ein hysgoldy newydd.*"

**Ar gyfer y rhifyn nesaf...**

***Beth am i CHI anfon cyfraniad – ar unrhyw bwnc dan haul:***
***eich barn, atgofion, sylwadau neu fyfyrdodau***

Mae gennych ddeufis i baratoi – datblygwch y syniad yn erthygl!

**Dewch, dewch!**

**Dyddiad cau: Gorffennaf 13, 2022**

Anfonwch y deunydd – unrhyw bryd – at Ifan Roberts: **tycnau@aol.com**

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu pob gair a llun i'r rhifyn hwn. Dyma ddau lun i gloi'r rhifyn – y naill o'r oedfa Cymorth Cristnogol, a'r llall o unawdwyr "Teilwng yw'r Oen":



**Côr bach yr Ysgol Sul ar Fai 8fed, 2022. Tybed a fydd rhai o'r rhain yn dilyn ôl-troed y ddau isod?**



**Unawdwyr 'Teilwng yw'r Oen' - Fflur Davies, o Rostryfan, Gwynedd a Rhodri Prys Jones, o Lanerfyl, Powys. Fflur yn un o fyfyrwyr presennol Eilir a Rhodri'n gyn-fyfyriwr iddo.**